12.—(1) The relevant feed additive and premixtures, compound feed or feed materials containing it, which are produced and labelled before the end of 19 June 2025 in compliance with the conditions of authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(2) In paragraph (1), the reference to the "relevant feed additive" is a reference to the feed additive 6-phytase (EC 3.1.3.26) (identification number 4a16)(**1**) as authorised immediately before 20 December 2024 under Commission Implementing Regulation (EU) No 98/2012 concerning the authorisation of 6-phytase (EC 3.1.3.26) produced by *Pichia pastoris* (DSM 23036) as a feed additive for chickens and turkeys for fattening, chickens reared for laying, turkeys reared for breeding, laying hens, other avian species for fattening and laying, weaned piglets, pigs for fattening and sows(**2**).

Transitional provision: *Bacillus velezensis* (formerly *Bacillus subtilis* C-3102) (DSM 15544) (identification number 4b1820)

13.—(1) Any substance or product labelled "*Bacillus subtilis* C-3102" or as containing "*Bacillus subtilis* C-3102", but otherwise produced and labelled in accordance with an authorisation contained in an instrument mentioned in regulations 4 to 6 of these Regulations, may continue to be placed on the market and used under that authorisation.

(2) The relevant feed additive and premixtures containing it, which are produced and labelled before the end of 19 June 2025 in compliance with the conditions of authorisation and the labelling

(**1**) See Schedule 6 to these Regulations for relevant renewed authorisation of this feed additive.

(**2**) EUR 2012/98, amended prior to implementation period completion day by Commission Implementing Regulation (EU) 2016/348 (EUR 2016/348). EUR 2012/98 is revoked by regulation 20 of, and Schedule 21 to, these Regulations.

gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(3) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(4) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2026 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(5) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at yr "ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol" yn gyfeiriadau at yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid *Bacillus velezensis* (*Bacillus subtilis* C-3102 yn flaenorol) (DSM 15544), sydd â'r rhif adnabod 4b1820(**1**), fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan—

(a) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 333/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi defnydd newydd o *Bacillus su*btilis C-3102 (DSM 15544) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer perchyll wedi eu diddyfnu(**2**);

(b) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 184/2011 sy'n ymwneud ag awdurdodi *Bacillus subtilis* C-3102 (DSM 15544) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir a fegir ar gyfer dodwy, tyrcwn, mân rywogaethau adar ac adar addurnol ac adar hela eraill(**3**);

requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(3) Compound feed and feed materials containing the relevant feed additive and intended for food-producing animals, which are produced and labelled before the end of 19 December 2025 in compliance with the conditions of authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(4) Compound feed and feed materials containing the relevant feed additive and intended for non-food-producing animals, which are produced and labelled before the end of 19 December 2026 in compliance with the conditions of the authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(5) In this regulation, references to the "relevant feed additive" are references to the feed additive *Bacillus velezensis* (formerly *Bacillus subtilis* C-3102) (DSM 15544), with the identification number 4b1820(**1**), as authorised immediately before 20 December 2024 under—

(a) Commission Regulation (EU) No 333/2010 concerning the authorisation of a new use of *Bacillus subtilis* C-3102 (DSM 15544) as a feed additive for weaned piglets(**2**);

(b) Commission Regulation (EU) No 184/2011 concerning the authorisation of *Bacillus subtilis* C-3102 (DSM 15544) as a feed additive for chickens reared for laying, turkeys, minor avian species and other ornamental and game birds(**3**);

(**1**) Gweler Atodlen 7 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer awdurdodiad yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a adnewyddwyd ac a gydgrynhowyd.

(**2**) EUR 2010/333, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). Mae EUR 2010/333 a 2020/146 wedi eu dirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

(**3**) EUR 2011/184, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). Mae EUR 2011/184 a 2020/146 wedi eu dirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt

(**1**) See Schedule 7 to these Regulations for relevant renewed and consolidated authorisation of this feed additive.

(**2**) EUR 2010/333, amended prior to implementation period completion day by Commission Implementing Regulation (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). EUR 2010/333 and 2020/146 are revoked by regulation 20 of, and Schedule 21 to, these Regulations

(**3**) EUR 2011/184, amended prior to implementation period completion day by Commission Implementing Regulation (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). EUR 2011/184 and 2020/146 are revoked by regulation 20 of, and Schedule 21 to, these Regulations

(c) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/897 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad o *Bacillus subtilis* (C-3102) (DSM 15544) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir dodwy a physgod addurniadol(**1**);

(d) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/893 sy'n ymwneud ag adnewyddu awdurdodiad o *Bacillus subtilis* DSM 15544 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi(**2**).

(c) Commission Implementing Regulation (EU) 2016/897 concerning the authorisation of a preparation of *Bacillus subtilis* (C-3102) (DSM 15544) as a feed additive for laying hens and ornamental fish(**1**);

(d) Commission Implementing Regulation (EU) 2019/893 concerning the renewal of the authorisation of *Bacillus subtilis* DSM 15544 as a feed additive for chickens for fattening(**2**).

Darpariaeth drosiannol: Burum wedi ei seleneiddio a gynhyrchir drwy eplesu â *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-3060, anactifedig (rhif adnabod 3b810)

14.—(1) Caniateir i'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a'r rhag-gymysgeddau sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Mehefin 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(2) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(3) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2026 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at yr "ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol" yn gyfeiriadau at yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid burum wedi ei seleneiddio a gynhyrchir drwy eplesu â *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-3060, anactifedig,

Transitional provision: Selenised yeast produced by fermentation with *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-3060, inactivated (identification number 3b810)

14.—(1) The relevant feed additive and premixtures containing it, which are produced and labelled before the end of 19 June 2025 in compliance with the conditions of authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(2) Compound feed and feed materials containing the relevant feed additive and intended for food-producing animals, which are produced and labelled before the end of 19 December 2025 in compliance with the conditions of authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(3) Compound feed and feed materials containing the relevant feed additive and intended for non-food-producing animals, which are produced and labelled before the end of 19 December 2026 in compliance with the conditions of the authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(4) In this regulation, references to the "relevant feed additive" are references to the feed additive selenised yeast produced by fermentation with *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-3060, inactivated, with the identification number 3b810, as authorised

(**1**) Gweler rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn ar gyfer diwygiadau i EUR 2016/897.

(**2**) EUR 2019/893, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). Mae EUR 2019/893 a 2020/146 wedi eu dirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

(**1**) See regulation 4 of these Regulations for amendments to EUR 2016/897.

(**2**) EUR 2019/893, amended prior to implementation period completion day by Commission Implementing Regulation (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). EUR 2019/893 and 2020/146 are revoked by regulation 20 of, and Schedule 21 to, these Regulations.

sydd â'r rhif adnabod 3b810, fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/804(**1**).

Darpariaeth drosiannol: Hydrocsianisol bwtyleiddiedig fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod

15.—(1) Caniateir i hydrocsianisol bwtyleiddiedig fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod a'r rhag-gymysgeddau sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Mehefin 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(2) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys hydrocsianisol bwtyleiddiedig ac a fwriedir ar gyfer cathod, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2026 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

Darpariaethau trosiannol: Celadau copor, manganîs, a zinc o analog hydrocsi o fethionin (rhifau adnabod 3b410i, 3b510 a 3b610 yn y drefn honno)

16.—(1) Caniateir i ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a'r rhag-gymysgeddau sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Mehefin 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(2) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(**1**) Gweler rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn ar gyfer diwygiadau i EUR 2019/804.

immediately before 20 December 2024 under Commission Implementing Regulation (EU) 2019/804(**1**).

Transitional provision: Butylated hydroxyanisole as a feed additive for cats

15.—(1) Butylated hydroxyanisole as a feed additive for cats and premixtures containing it, which are produced and labelled before the end of 19 June 2025 in compliance with the conditions of authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(2) Compound feed and feed materials containing butylated hydroxyanisole intended for cats, which are produced and labelled before the end of 19 December 2026 in compliance with the conditions of authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

Transitional provisions: Copper, manganese and zinc chelates of hydroxy analogue of methionine (identification numbers 3b410i, 3b510 and 3b610 respectively)

16.—(1) A relevant feed additive and premixtures containing it, which are produced and labelled before the end of 19 June 2025 in compliance with the conditions of authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(2) Compound feed and feed materials containing a relevant feed additive and intended for food-producing animals, which are produced and labelled before the end of 19 December 2025 in compliance with the conditions of authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(**1**) See regulation 7 of these Regulations for amendments to EUR 2019/804.

(3) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2026 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at "ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol" yn gyfeiriadau at bob un o'r ychwanegion bwyd anifeiliaid a ganlyn.

Celad copor o analog hydrocsi o fethionin

(a) Yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid celad copor o analog hydrocsi o fethionin, sydd â'r rhif adnabod 3b410i (3b4.10 yn flaenorol)(**1**) fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 349/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi celad copor o analog hydrocsi o fethionin fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**2**).

Celad manganîs o analog hydrocsi o fethionin

(b) Yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid celad manganîs o analog hydrocsi o fethionin, sydd â'r rhif adnabod 3b510 (3b5.10 yn flaenorol)(**3**) fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 350/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi celad manganîs o analog hydrocsi o fethionin fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**4**).

(3) Compound feed and feed materials containing a relevant feed additive and intended for non-food-producing animals, which are produced and labelled before the end of 19 December 2026 in compliance with the conditions of the authorisation and the labelling requirements applicable immediately before 20 December 2024, may continue to be placed on the market and used until stocks are exhausted.

(4) In this regulation, references to a "relevant feed additive" are references to each of the following feed additives.

Copper chelate of hydroxy analogue of methionine

(a) The feed additive copper chelate of hydroxy analogue of methionine, with the identification number 3b410i (formerly 3b4.10)(**1**) as authorised immediately before 20 December 2024 under Commission Regulation (EU) No 349/2010 concerning the authorisation of copper chelate of hydroxy analogue of methionine as a feed additive for all animal species(**2**).

Manganese chelate of hydroxy analogue of methionine

(b) The feed additive manganese chelate of hydroxy analogue of methionine, with the identification number 3b510 (formerly 3b5.10)(**3**) as authorised immediately before 20 December 2024 under Commission Regulation (EU) No 350/2010 concerning the authorisation of manganese chelate of hydroxy analogue of methionine as a feed additive for all animal species(**4**).

(**1**) Gweler Atodlen 17 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer awdurdodiad yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn a adnewyddwyd.
(**2**) EUR 2010/349, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1039 (EUR 2018/1039). Mae EUR 2010/349 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.
(**3**) Gweler Atodlen 18 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer awdurdodiad yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn a adnewyddwyd.
(**4**) EUR 2010/350. Mae EUR 2010/350 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

(**1**) See Schedule 17 to these Regulations for the renewed authorisation of this feed additive.
(**2**) EUR 2010/349, amended prior to implementation period completion day by Commission Implementing Regulation (EU) 2018/1039 (EUR 2018/1039). EUR 2010/349 is revoked by regulation 20 of, and Schedule 21 to, these Regulations.
(**3**) See Schedule 18 to these Regulations for the renewed authorisation of this feed additive.
(**4**) EUR 2010/350. EUR 2010/350 is revoked by regulation 20 of, and Schedule 21 to, these Regulations.

Celad zinc o analog hydrocsi o methionin

(c) Yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid celad zinc o analog hydrocsi o fethionin, sydd â'r rhif adnabod 3b610 (3b6.10 yn flaenorol)(**1**) fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 335/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi celad zinc o analog hydrocsi o fethionin fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**2**).

Zinc chelate of hydroxy analogue of methionine

(c) The feed additive zinc chelate of hydroxy analogue of methionine, with the identification number 3b610 (formerly 3b6.10)(**1**) as authorised immediately before 20 December 2024 under Commission Regulation (EU) No 335/2010 concerning the authorisation of zinc chelate of hydroxy analogue of methionine as a feed additive for all animal species(**2**).

RHAN 4

Defnydd o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol

Addasu nodwedd faethol hanfodol ar gyfer bwyd anifeiliaid a fwriedir i leihau'r risg o dwymyn llaeth a chlwy'r llaeth is-glinigol

17.—(1) Yn Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o ddefnyddiau arfaethedig o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol(**3**), yn yr Atodiad, yn Rhan B (rhestr o ddefnyddiau arfaethedig), diwygir y tabl fel a ganlyn.

(2) Yng nghofnod 60 (lleihau'r risg o dwymyn llaeth a chlwy'r llaeth is-glinigol), yng ngholofn rhif 2 (nodweddion maethol hanfodol), yn adran y cofnod sy'n dechrau â "Low cations/anions ratio", yn lle "Objective: 0 < $DCAD^s$ (mEq/kg dry matter) < 100" rhodder "Objective: Range from -200 mEq/kg dry matter $DCAD^s$ to <100 mEq/kg dry matter DCAD".

PART 4

Uses of feed intended for particular nutritional purposes

Modification of an essential nutritional characteristic for feed intended to reduce the risk of milk fever and subclinical hypocalcaemia

17.—(1) In Commission Regulation (EU) 2020/354 establishing a list of intended uses of feed intended for particular nutritional purposes(**3**), in the Annex, in Part B (list of intended uses), the table is amended as follows.

(2) In entry 60 (reduction of the risk of milk fever and subclinical hypocalcaemia), in column number 2 (essential nutritional characteristics), in the section of the entry starting "Low cations/anions ratio", for "Objective: 0 < $DCAD^s$ (mEq/kg dry matter) < 100" substitute "Objective: Range from -200 mEq/kg dry matter $DCAD^s$ to <100 mEq/kg dry matter DCAD".

RHAN 5

Dirymiadau

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1095

18. Yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1095 sy'n ymwneud ag awdurdodi Zinc asetad deuhydrad, Zinc clorid anhydrus, Zinc ocsid, Zinc sylffad heptahydrad, Zinc sylffad monohydrad, celad Zinc o asidau amino hydrad, celad Zinc o hydrolysadau protein, celad Zinc o glycin hydrad

PART 5

Revocations

Amendment of Commission Implementing Regulation (EU) 2016/1095

18. In Commission Implementing Regulation (EU) 2016/1095 concerning the authorisation of Zinc acetate dihydrate, Zinc chloride anhydrous, Zinc oxide, Zinc sulphate heptahydrate, Zinc sulphate monohydrate, Zinc chelate of amino acids hydrate, Zinc chelate of protein hydrolysates, Zinc chelate of glycine hydrate

(**1**) Gweler Atodlen 19 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer awdurdodiad yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn a adnewyddwyd.
(**2**) EUR 2010/335, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1095 (EUR 2016/1095). Mae EUR 2010/335 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.
(**3**) EUR 2020/354, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) See Schedule 19 to these Regulations for the renewed authorisation of this feed additive.
(**2**) EUR 2010/335, amended prior to implementation period completion day by Commission Implementing Regulation (EU) 2016/1095 (EUR 2016/1095). EUR 2010/335 is revoked by regulation 20 of, and Schedule 21 to, these Regulations.
(**3**) EUR 2020/354, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(solet) a chelad Zinc o glycin hydra (hylif) fel ychwanegion bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**1**), hepgorer Erthygl 4 (diwygio Rheoliad (EU) Rhif 335/2010).

(solid) and Zinc chelate of glycine hydrate (liquid) as feed additives for all animal species(**1**), omit Article 4 (amendment to Regulation (EU) No 335/2010).

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1039

19. Yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1039 sy'n ymwneud ag awdurdodi Copor(II) diacetad monohydrad, Copor(II) carbonad deuhydrosci monohydrad, Copor(II) clorid deuhydrad, Copor(II) ocsid, Copor(II) sylffad pentahydrad, celad Copor(II) o asidau amino hydrad, celad Copor(II) o hydrolysadau protein, celad Copor(II) o glycin hydrad (solet) a chelad Copor(II) o glycin hydrad (hylif) fel ychwanegion bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**2**), hepgorer Erthygl 5 (diwygio Rheoliad (EU) Rhif 349/2010).

Amendment of Commission Implementing Regulation (EU) 2018/1039

19. In Commission Implementing Regulation (EU) 2018/1039 concerning the authorisation of Copper(II) diacetate monohydrate, Copper(II) carbonate dihydroxy monohydrate, Copper(II) chloride dihydrate, Copper(II) oxide, Copper(II) sulphate pentahydrate, Copper(II) chelate of amino acids hydrate, Copper(II) chelate of protein hydrolysates, Copper(II) chelate of glycine hydrate (solid) and Copper(II) chelate of glycine hydrate (liquid) as feed additives for all animal species(**2**), omit Article 5 (amendment to Regulation (EU) No 349/2010).

Dirymiadau

20. Mae'r offerynnau a restrir yn Atodlen 21 wedi eu dirymu.

Revocations

20. The instruments listed in Schedule 21 are revoked.

Sarah Murphy

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
27 Tachwedd 2024

Minister for Mental Health and Wellbeing, under the authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
27 November 2024

(**1**) EUR 2016/1095.
(**2**) EUR 2018/1039.

(**1**) EUR 2016/1095.
(**2**) EUR 2018/1039.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi paratoad o gelad cromiwm o DL-methionin (rhif adnabod GB4d0001) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer buchod godro

Mae'r paratoad o gelad cromiwm o DL-methionin a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sootechnegol arall", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

Yr ychwanegyn	Celad cromiwm o DL-methionin
Rhif adnabod	GB4d0001
Deiliad yr awdurdodiad	Zinpro Animal Nutrition (Europe), Inc
Categori ychwanegion	Ychwanegion sootechnegol
Grŵp gweithredol	Sootechnegol arall
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Paratoad solet o geladau cromiwm (Cr) gyda DL-methionin gyda'r cydrannau a ganlyn: • Calsiwm carbonad: 95.6% • Cromiwm-DL-Methionin: 3.4% • Olew llysiau: 1.0%
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Celad cromiwm o DL-methionin ($[CH_3S(CH_2)_2CH(NH_2)COO]_3$ Cr)
Dulliau dadansoddi[(1)]	I feintioli cromiwm yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Sbectrometreg màs â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-MS) (BS EN 17053:2018[(2)]) I feintioli methionin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod ffotometrig (IEC-VIS) (BS EN ISO 13903:2005[(3)]) I brofi ffurf geladedig yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Sbectrometreg isgoch canol (IR) ynghyd â chanfod cynnwys y cromiwm a'r methionin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Buchod godro
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(4)]	0.2 mg/kg
Uchafswm cynnwys[(4)]	0.5 mg/kg
Darpariaethau eraill	Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd

[(1)] Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2019)6115119 – 03/10/2019" a "JRC F.5/CvH/ZE/AS/Ares" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 18 Hydref 2019. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2018-0021_en.

[(2)] O dan y cyfeirnod BS EN 17053:2018 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of trace elements, heavy metals and other elements in feed by ICP-MS (multi-method)". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 28 Chwefror 2018 (ISBN 978 0 580 94471 0). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

[3] O dan y cyfeirnod BS EN ISO 13903:2005 “Animal feeding stuffs. Determination of amino acids content”. Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 24 Hydref 2005 (ISBN 0 580 46218 8). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

[4] Cynnwys cromiwm (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 2

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad paratoad o *Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885) (rhif adnabod 4b1710) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer perchyll wedi eu diddyfnu, a'i awdurdodi fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid gan estyn y defnydd presennol i gwmpasu pob *Suidae* heblaw hychod a pherchyll sugno, cathod, a chŵn

Mae'r paratoad o *Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sefydlogyddion fflora'r perfedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(**1**).

Yr ychwanegyn	*Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885)
Rhif adnabod	4b1710
Deiliad yr awdurdodiad	Prosol S.p.A
Categori ychwanegion	Ychwanegion sootechnegol
Grŵp gweithredol	Sefydlogyddion fflora'r perfedd
Categori ychwanegion	Paratoad solet o *Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885) sy'n cynnwys isafswm o 1×10^9 o unedau ffurfio cytref (CFU)/g
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Celloedd hyfyw *Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885)
Dulliau dadansoddi[(1)]	I gyfrifo: • Y dull plât arllwys gan ddefnyddio agar CGYE (cloramffenicol, glwcos, echdynnyn burum) (BS EN 15789:2021[(2)]) I adnabod y straen burum: • Y dull adwaith cadwynol polymerasau (PCR) (DD CEN/TS 15790:2008[(3)])
Rhywogaeth neu gategori o anifail	• Pob rhywogaeth o *Suidae* heblaw perchyll sugno neu hychod • Cathod • Cŵn
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(4)]	Ar gyfer *Suidae*: • *Suidae* heblaw perchyll sugno, hychod a *Suidae* at ddibenion atgenhedlu: 3×10^9 CFU/kg • *Suidae* at ddibenion atgenhedlu ac eithrio hychod: 6.4×10^9 CFU/kg Ar gyfer cathod • 7×10^{10} CFU/kg Ar gyfer cŵn: • 7×10^{10} CFU/kg
Uchafswm cynnwys[(4)]	Dim
Darpariaethau eraill	Rhaid nodi'r amodau storio yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau

(**1**) Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys adnewyddu'r awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 170/2011 (EUR2011/170). Mae EUR 2011/170 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

[1] Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "D06/FSQ/CVH/CMP/mdr/ARES (2010)58412" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2009-0028_en.

[2] O dan y cyfeirnod BS EN 15789:2021 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of Saccharomyces cerevisiae used as feed additive". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Tachwedd 2021 (ISBN 978 0 580 99832 4). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

[3] O dan y cyfeirnod DD CEN TS 15790:2008 "Animal feeding stuffs. PCR typing of probiotic strains of Saccharomyces cerevisiae (yeast)". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Ionawr 2009 (ISBN 978 0 580 61806 2). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

[4] Unedau ffurfio cytref (CFU) o ychwanegyn/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

ATODLEN 3

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi paratoad o *Pediococcus acidilactici* (CNCM I-4622) ((rhif adnabod 4d1712) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o *Pediococcus acidilactici* (CNCM I-4622) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion technolegol" ac i'r grwpiau gweithredol "rheolydd asidedd" a "sylweddau gwella cyflwr hylendid", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

Yr ychwanegyn	*Pediococcus acidilactici* (CNCM I-4622)
Rhif adnabod	4d1712
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion technolegol
Grŵp gweithredol	• Rheolyddion asidedd • Sylweddau gwella cyflwr hylendid
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Paratoad solet o *Pediococcus acidilactici* (CNCM I-4622) sy'n cynnwys o leiaf 1×10^{10} o unedau ffurfio cytref (CFU)/g
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Celloedd hyfyw *Pediococcus acidilactici* (CNCM I-4622)
Dulliau dadansoddi(1)	I gyfrifo (cyfrif cytrefi) yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Y dull plât taenu gan ddefnyddio agar MRS (BS EN 15786:2021(2)) I adnabod y straen bacterol: • Electrofforesis jel maes pylsedig (PFGE)
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Pob rhywogaeth o anifail
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys(3)	1×10^9 CFU/kg
Uchafswm cynnwys(3)	Dim
Darpariaethau eraill	1. Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd. 2. Dim ond i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid cyfansawdd stwnsh a fwriedir ar gyfer paratoi bwyd anifeiliaid hylifol ar fferm, neu ddeunyddiau bwyd anifeiliaid solet a fwriedir ar gyfer paratoi bwyd anifeiliaid hylifol ar fferm. 3. Os yw *Pediococcus acidilactici* (CNCM I-4622) i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cocsidiostatau, awdurdodir defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn gyda'r cocsidiostatau a ganlyn yn unig, ac yn unol â'u meini prawf awdurdodi unigol: • Decocwinad • Deuclaswril • Halofwginon • Nicarbasin • Robenidin

(1) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2014)1202206 - 16/04/2014" a "JRC.D.5/SFB/CvH/JO /mds/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2013-0031_en.

(2) O dan y cyfeirnod BS EN 15786:2021 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of Bacillus spp. used as feed additive". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Tachwedd 2021 (ISBN 978 0 580 99830 0). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(3) Unedau ffurfio cytref (CFU) o ychwanegyn/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

ATODLEN 4

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad (ag addasiad) baratoad o fonensin sodiwm a gynhyrchir drwy eplesu â *Streptomyces cinnamonensis* 28682 (NBIMCC 3419) (cludwr: perlit, calsiwm carbonad) (rhif adnabod 51701) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi, ieir a fegir ar gyfer dodwy, a thyrcwn i'w pesgi, a'i awdurdodi fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid gan estyn y defnydd presennol i gwmpasu tyrcwn a fegir ar gyfer bridio

Mae'r paratoad o fonensin sodiwm a gynhyrchir drwy eplesu â *Streptomyces cinnamonensis* 28682 (NBIMCC 3419) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "cocsidiostatau a histomonostatau", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(**1**).

Yr ychwanegyn	Monensin sodiwm
Rhif adnabod	51701
Deiliad yr awdurdodiad	Huvepharma NV
Categori ychwanegion	Cocsidiostatau a histomonostatau
Grŵp gweithredol	Dim
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Paratoad o fonensin sodiwm a gynhyrchir drwy eplesu â *Streptomyces cinnamonensis* 28682 (NBIMCC 3419) ar ffurf powdr gyda'r cydrannau a ganlyn: • Sylwedd technegol monensin sodiwm: 250 g/kg sy'n cynnwys: — Monensin A: isafswm o 90% — Monensin A + B: isafswm o 95% — Monensin C: 0.2 – 0.3% • Perlit: 150 – 200 g/kg • Calsiwm carbonad: 550 – 600 g/kg
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Sylwedd technegol monensin sodiwm a gynhyrchir drwy eplesu â *Streptomyces cinnamonensis* 28682 (NBIMCC 3419). • Monensin sodiwm A ($C_{36}H_{61}NaO_{11}$) • Monensin sodiwm B ($C_{35}H_{59}NaO_{11}$) • Monensin sodiwm C ($C_{37}H_{63}NaO_{11}$) • Rhif CAS[(1)]: 22373-78-0
Dulliau dadansoddi[(2)]	I feintioli monensin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel gwedd wrthdroi gan ddefnyddio deilliant ôl-golofn a gyplysir â chanfod sbectroffotometrig (RP-HPLC-PCD-UV-VIS) (BS EN ISO 14183: 2008[(3)])

(**1**) Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys adnewyddiad (ag addasiad) o'r awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 109/2007 (EUR 2007/109) a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 140/2012 (EUR 2012/140). Mae EUR 2007/109 a 2012/140 wedi eu dirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

	I feintioli monensin sodiwm mewn meinweoedd ieir a thyrcwn: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel gwedd wrthdroi a gyplysir â sbectrometr màs pedrypol triphlyg (RP-HPLC-MS/MS) neu unrhyw ddulliau cyfatebol.
Rhywogaeth neu gategori o anifail	• Ieir i'w pesgi • Ieir a fegir ar gyfer dodwy • Tyrcwn i'w pesgi • Tyrcwn a fegir ar gyfer bridio
Oedran hynaf	Ar gyfer ieir i'w pesgi: • Dim Ar gyfer ieir a fegir ar gyfer dodwy: • 16 wythnos Ar gyfer tyrcwn i'w pesgi, tyrcwn a fegir ar gyfer bridio: • 16 wythnos
Isafswm cynnwys[4]	Ar gyfer ieir i'w pesgi, ieir a fegir ar gyfer dodwy: • 100 mg/kg Ar gyfer tyrcwn i'w pesgi, tyrcwn a fegir ar gyfer bridio: • 60 mg/kg
Uchafswm cynnwys[4]	Ar gyfer ieir i'w pesgi, ieir a fegir ar gyfer dodwy: • 125 mg/kg Ar gyfer tyrcwn i'w pesgi, tyrcwn a fegir ar gyfer bridio: • 100 mg/kg
Uchafswm terfynau gweddillion (MRLs) monensin sodiwm mewn bwyd sy'n dod o anifeiliaid	Ar gyfer croen gwlyb ar y cyd â braster gwlyb: • 25 µg/kg Ar gyfer afu gwlyb; aren wlyb; cyhyrau gwlyb: • 8 µg/kg
Darpariaethau eraill	1. Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd. 2. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid yn y bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar ffurf rhag-gymysgedd. 3. Ni chaniateir cymysgu monensin sodiwm â chocsidiostatau eraill. 4. Rhaid nodi'r canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio: • Yn Saesneg: "Dangerous for equines. This feed contains an ionophore. Avoid simultaneous administration with tiamulin and monitor for possible adverse reactions when used concurrently with other medicinal substances". • Yn Gymraeg: "Yn beryglus i geffylau. Mae'r bwyd anifeiliaid hwn yn cynnwys ionoffor. Dylid osgoi ei roi ar yr un pryd â tiamwlin, a dylid monitro ar gyfer adweithiau andwyol posibl wrth ei ddefnyddio gyda sylweddau meddygol eraill". 5. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gynnal rhaglen fonitro ar ôl rhyddhau ar y farchnad ar gyfer ymwrthedd i facteria ac *Eimeria* spp. Rhaid cyflwyno adroddiad yn cynnwys canlyniad y rhaglen honno i Weinidogion Cymru cyn diwedd 19 Rhagfyr 2033.

[1] CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(2) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2017)1087313 – 01/03/2017" a "JRC F.5/CvH/MGH /mds/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 27 Ebrill 2017. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2016-0009_en.

(3) O dan y cyfeirnod BS EN ISO 14183:2008 "Animal feeding stuffs. Determination of monensin, narasin and salinomycin contents. Liquid chromatographic method using post-column derivatization". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 24 Ionawr 2006 (ISBN 978 0 580 62955 6). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(4) Cynnwys monensin (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 5

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad (ag addasiad) baratoad o fonensin sodiwm a gynhyrchir drwy eplesu â *Streptomyces cinnamonensis* 28682 (NBIMCC 3419) (cludwr: perlit, bran gwenith) (rhif adnabod 51701) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi, a thyrcwn i'w pesgi, a'i awdurdodi fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid gan estyn y defnydd presennol i gwmpasu ieir a fegir ar gyfer dodwy, a thyrcwn a fegir ar gyfer bridio

Mae'r paratoad o fonensin sodiwm a gynhyrchir drwy eplesu â *Streptomyces cinnamonensis* 28682 (NBIMCC 3419) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "cocsidiostatau a histomonostatau", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(**1**).

Yr ychwanegyn	Monensin sodiwm
Rhif adnabod	51701.
Deiliad yr awdurdodiad	Huvepharma NV
Categori ychwanegion	Cocsidiostatau a histomonostatau
Grŵp gweithredol	Dim
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Paratoad o fonensin sodiwm a gynhyrchir drwy eplesu â *Streptomyces cinnamonensis* 28682 (NBIMCC 3419) ar ffurf powdr gyda'r cydrannau a ganlyn: • Sylwedd technegol monensin sodiwm: 250g/kg sy'n cynnwys: — Monensin A: isafswm o 90% — Monensin A + B: isafswm o 95% — Monensin C: 0.2 – 0.3% • Perlit: 150 – 200 g/kg • Bran gwenith: 550 – 600 g/kg
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Sylwedd technegol monensin sodiwm a gynhyrchir drwy eplesu â *Streptomyces cinnamonensis* 28682 (NBIMCC 3419). • Monensin sodiwm A ($C_{36}H_{61}NaO_{11}$) • Monensin sodiwm B ($C_{35}H_{59}NaO_{11}$) • Monensin sodiwm C ($C_{37}H_{63}NaO_{11}$) • Rhif CAS[(2)]: 22373-78-0
Dulliau dadansoddi[(2)]	I feintioli monensin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel gwedd wrthdroi gan ddefnyddio deilliant ôl-golofn a gyplysir â chanfod sbectroffotometrig (RP-HPLC-PCD-UV-VIS) (BS EN ISO 14183: 2008[(3)])

(**1**) Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys adnewyddiad (ag addasiad) o'r awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EC) Rhif 109/2007 (EUR 2007/109). Mae EUR 2007/109 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

	I feintioli monensin sodiwm mewn meinweoedd ieir a thyrcwn: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel gwedd wrthdroi a gyplysir â sbectrometr màs pedrypol triphlyg (RP-HPLC-MS/MS) neu unrhyw ddulliau cyfatebol.
Rhywogaeth neu gategori o anifail	• Ieir i'w pesgi • Ieir a fegir ar gyfer dodwy • Tyrcwn i'w pesgi • Tyrcwn a fegir ar gyfer bridio
Oedran hynaf	Ar gyfer ieir i'w pesgi: • Dim Ar gyfer ieir a fegir ar gyfer dodwy: • 16 wythnos Ar gyfer tyrcwn i'w pesgi, tyrcwn a fegir ar gyfer bridio: • 16 wythnos
Isafswm cynnwys[4]	Ar gyfer ieir i'w pesgi, ieir a fegir ar gyfer dodwy: • 100 mg/kg Ar gyfer tyrcwn i'w pesgi, tyrcwn a fegir ar gyfer bridio: • 60 mg/kg
Uchafswm cynnwys[4]	Ar gyfer ieir i'w pesgi, ieir a fegir ar gyfer dodwy: • 125 mg/kg Ar gyfer tyrcwn i'w pesgi, tyrcwn a fegir ar gyfer bridio: • 100 mg/kg
Uchafswm terfynau gweddillion (MRLs) monensin sodiwm mewn bwyd sy'n dod o anifeiliaid	Ar gyfer croen gwlyb ar y cyd â braster gwlyb: • 25 µg/kg Ar gyfer afu gwlyb; aren wlyb; cyhyrau gwlyb: • 8 µg/kg
Darpariaethau eraill	1. Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd. 2. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid yn y bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar ffurf rhag-gymysgedd. 3. Ni chaniateir cymysgu monensin sodiwm â chocsidiostatau eraill. 4. Rhaid nodi'r canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio: • Yn Saesneg: "Dangerous for equines. This feed contains an ionophore. Avoid simultaneous administration with tiamulin and monitor for possible adverse reactions when used concurrently with other medicinal substances". • Yn Gymraeg: "Yn beryglus i geffylau. Mae'r bwyd anifeiliaid hwn yn cynnwys ionoffor. Dylid osgoi ei roi ar yr un pryd â thiamwlin, a dylid monitro ar gyfer adweithiau andwyol posibl wrth ei ddefnyddio gyda sylweddau meddygol eraill". 5. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gynnal rhaglen fonitro ar ôl rhyddhau ar y farchnad ar gyfer ymwrthedd i facteria ac *Eimeria* spp. Rhaid cyflwyno adroddiad yn cynnwys canlyniad y rhaglen honno i Weinidogion Cymru cyn diwedd 19 Rhagfyr 2033.

[1] CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(2) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2017)1087313 – 01/03/2017" a "JRC F.5/CvH/MGH /mds/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 27 Ebrill 2017. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2016-0009_en.

(3) O dan y cyfeirnod BS EN ISO 14183:2008 "Animal feeding stuffs. Determination of monensin, narasin and salinomycin contents. Liquid chromatographic method using post-column derivatization". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 24 Ionawr 2006 (ISBN 978 0 580 62955 6). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(4) Cynnwys monensin (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 6

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad (ag addasiad) baratoad o 6-ffytas (EC 3.1.3.26) a gynhyrchir drwy eplesu â *Komagataella phaffii* (*pastoris Komagataella* yn flaenorol) (DSM 23036) (rhif adnabod 4a16) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi, ieir a fegir ar gyfer dodwy, ieir dodwy, tyrcwn i'w pesgi, tyrcwn a fegir ar gyfer bridio, rhywogaethau adar eraill i'w pesgi ac ar gyfer dodwy, hychod, moch i'w pesgi a pherchyll wedi eu diddyfnu, a'i awdurdodi fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid gan estyn y defnydd presennol i gwmpasu pob rhywogaeth o adar a phob *Suidae*

Mae'r paratoad o 6-ffytas (EC 3.1.3.26) a gynhyrchir drwy eplesu ag *Komagataella phaffii* (DSM 23036) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sylweddau gwella treuliadwyedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(**1**).

Yr ychwanegyn	6-ffytas (EC 3.1.3.26)
Rhif adnabod	4a16
Deiliad yr awdurdodiad	Huvepharma NV
Categori ychwanegion	Ychwanegion sootechnegol
Grŵp gweithredol	Sylweddau gwella treuliadwyedd
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Paratoad o 6-ffytas (EC 3.1.3.26) a gynhyrchir drwy eplesu â *Komagataella phaffii* (DSM 23036) sydd ag isafswm actifedd ensym o: • 4,000 OTU/g[(1)] ar ffurf solet • 8,000 OTU/g ar ffurf hylif
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	6-ffytas (EC 3.1.3.26) a gynhyrchir drwy eplesu â *Komagataella phaffii* (DSM 23036) • Rhif CAS[(2)]: 9001-89-2 • Rhif EC (IUBMB):[(3)]: 3.1.3.26
Dulliau dadansoddi[(4)]	I feintioli actifedd ffytas yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Dull colorimetrig yn seiliedig ar feintioli'r ffosffad anorganig a ryddheir gan yr ensym o'r sodiwm ffytad
Rhywogaeth neu gategori o anifail	• Pob rhywogaeth o adar • Pob *Suidae*
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(5)]	Ar gyfer rhywogaethau adar: • Pob rhywogaeth o adar ac eithrio tyrcwn: 125 OTU/kg • Tyrcwn: 250 OTU/kg Ar gyfer *Suidae*: • Pob *Suidae* ac eithrio perchyll: 125 OTU/kg • Perchyll: 250 OTU/kg
Uchafswm cynnwys[(5)]	Dim

(**1**) Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys adnewyddiad (ag addasiad) o'r awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EC) Rhif 98/2012 (EUR 2012/98). Mae EUR 2012/98 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

Darpariaethau eraill	Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd.

(1) Unedau technegol OptiPhos (gweithgaredd ffytas): 1 OTU yw faint o ensym sy'n catalyddu rhyddhau 1 µmol o ffosffad anorganig y funud o 5.1 mM sodiwm ffytad mewn byffer citrad pH 5.5 ar 37ºC, wedi ei fesur fel y lliw cymhleth P-molybdad glas ar 820 nm

(2) CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(3) Rhif adnabod a ddyrannwyd gan yr Undeb Biocemeg a Bioleg Foleciwlaidd Rhyngwladol (IUBMB) https://iubmb.org.

(4) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2016)5971303 – 17/10/2016" a "JRC F.5/CvH/MGH /mds/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 17 Tachwedd 2016. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2016-0019_en.

(6) Cynnwys 6-ffytas (EC 3.1.3.26) (unedau actifedd (OTU)/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 7

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad (ag addasiad) baratoad o *Bacillus velezensis* (*Bacillus subtilis* yn flaenorol) (DSM 15544) (rhif adnabod 4b1820) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer perchyll wedi eu diddyfnu, ieir a fegir ar gyfer dodwy, tyrcwn, mân rywogaethau adar, adar addurnol ac adar hela; cydgrynhoi defnyddiau awdurdodedig presennol ar gyfer ieir dodwy a ieir i'w pesgi; a'i awdurdodi fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid gan estyn y defnydd presennol i gwmpasu pob rhywogaeth o adar

Mae'r paratoad o *Bacillus velezensis* (DSM 15544) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sefydlogyddion fflora'r perfedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(**1**).

Yr ychwanegyn	*Bacillus velezensis* (DSM 15544)
Rhif adnabod	4b1820
Deiliad yr awdurdodiad	Asahi Biocycle Co., Ltd
Categori ychwanegion	Ychwanegion sootechnegol
Grŵp gweithredol	Sefydlogyddion fflora'r perfedd
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Paratoad solet o *Bacillus velezensis* (DSM 15544) sy'n cynnwys isafswm o 1×10^{10} o unedau ffurfio cytref (CFU)/g
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Sborau hyfyw *Bacillus velezensis* (DSM 15544)
Dulliau dadansoddi[(1)]	I gyfrifo (cyfrif cytrefi) yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Y dull plât taenu gan ddefnyddio agar soia trypton ym mhob matrics targed (BS EN 15784:2021[(2)]) I adnabod yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid • Electrofforesis jel maes pylsedig (PFGE)
Rhywogaeth neu categori o anifail	• Perchyll wedi eu diddyfnu • Pob rhywogaeth o adar
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(3)]	3×10^8 CFU/kg
Uchafswm cynnwys[(3)]	Dim
Darpariaethau eraill	Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd.

[(1)] Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "D08/FSQ/CVH/CMP/mds/ARES (2009)347415" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2009-0013_en.

[(2)] O dan y cyfeirnod BS EN 15784:2021 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of Bacillus spp. used as feed additive". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Tachwedd 2021 (ISBN 978 0 580 99829 4). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

[(3)] Unedau ffurfio cytref (CFU)/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

(**1**) Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys adnewyddu'r awdurdodiadau a roddwyd o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 333/2010 (EUR 2010/333) a Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 184/2011 (EUR 2011/184) ac yn cydgrynhoi awdurdodiadau ar gyfer categorïau o rywogaethau adar a roddwyd o dan Reoliadau Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/897 (EUR 2016/897) a 2019/893 (EUR 2019/893). Mae EUR 2016/897 wedi ei ddiwygio gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn. Mae EUR 2010/333, 2011/184 a 2019/893 wedi eu dirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

ATODLEN 8

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi paratoad o L-histidin monohydroclorid monohydrad a gynhyrchir drwy eplesu ag *Escherichia coli* K-12 (KCCM 80212) (rhif adnabod 3c352i) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o L-histidin monohydroclorid monohydrad a gynhyrchir drwy eplesu ag *Escherichia coli* K-12 (KCCM 80212) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

Yr ychwanegyn	L-histidin monohydroclorid monohydrad
Rhif adnabod	3c352i
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion maethol
Grŵp gweithredol	Asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	L-histidin monohydroclorid monohydrad gyda maen prawf puredd heb fod yn llai na 98% fel powdr gyda'r cydrannau a ganlyn: • Lleithder: uchafswm o 1% • Histidin: isafswm o 72% • Histamin: uchafswm o 100ppm
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	L-histidin monohydroclorid monohydrad a gynhyrchir drwy eplesu ag *Escherichia coli* K-12 (KCCM 80212) ($C_6H_{12}ClN_3O_3$) • Rhif CAS: 5934-29-2[(1)] • Rhif EINECS: 611-821-4[(2)]
Dulliau dadansoddi[(3)]	I feintioli histidin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel a gyplysir â chanfod ffotometrig (HPLC-UV) (BS EN ISO 13903: 2005[(4)]), neu • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS/FLD) I feintioli histidin mewn rhag-gymysgeddau, deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod ffotometrig (IEC-VIS) (Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol(**1**) - Atodiad 3, F) I feintioli histamin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel a gyplysir â chanfod ffotometrig (HPLC-UV) (BS EN ISO 13903: 2005[(4)])
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Pob rhywogaeth o anifail
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(5)]	Dim
Uchafswm cynnwys[(5)]	Dim

(**1**) EUR 2009/152, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Darpariaethau eraill	1. Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd. 2. Caniateir rhoi L-histidin monohydroclorid monohydrad ar y farchnad a'i ddefnyddio fel ychwanegyn sy'n baratoad. 3. Rhaid nodi'r cynnwys histidin ar label yr ychwanegyn a'r rhag-gymysedd. 4. Rhaid nodi'r canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar label yr ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd: • Yn Saesneg: "The supplementation with L-histidine monohydrochloride monohydrate shall be limited to the nutritional requirements of the target animal, which depend on the species, the physiological state of the animal, the performance level, the environmental conditions, the level of other amino acids in the diet and the level essential trace elements such as copper and zinc". • Yn Gymraeg: "Rhaid i'r ychwanegiad â L-histidin monohydroclorid monohydrad fod yn gyfyngedig i ofynion maethol yr anifail targed, sy'n dibynnu ar y rhywogaeth, cyflwr ffisiolegol yr anifail, lefel perfformiad, yr amodau amgylcheddol, lefel asidau amino eraill yn y diet a lefel elfennau hybrin hanfodol fel copor a zinc". 5. Rhaid i gynnwys endotocsin yr ychwanegyn a'i botensial ysgeintio sicrhau amlygiad endotocsin mwyaf posibl o 1600 IU endotocsinau/m^3 aer[6].

[1] CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

[2] Stocrestr Ewropeaidd o Sylweddau Masnachol Presennol, fel y'i cyhoeddwyd yn OJ Rhif C146A, 15.6.90, t.1.

[3] Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2020)3718494 – 14/07/2020" a "JRC F.5/CvH/ZE/AS/Ares" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 16 Hydref 2020. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2020-0016_en.

[4] O dan y cyfeirnod BS EN ISO 13903:2005 "Animal feeding stuffs. Determination of amino acids content". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 24 Hydref 2005 (ISBN 0 580 46218 8). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

[5] Cynnwys L-histidin monohydroclorid monohydrad (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

[6] Amlygiad a gyfrifir yn seiliedig ar lefel endotocsin a photensial ysgeintio'r ychwanegyn yn unol â'r dull a ddefnyddir gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA Journal 2015;13(2):4015); dull dadansoddi: European Pharmacopoeia (Ph. Eur.): Supplement 6.6 (official January 1, 2010), Bacterial Endotoxins (cyfeirnod 01/2010:20614).

ATODLEN 9

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi paratoad o L-tryptoffan a gynhyrchir drwy eplesu ag *Escherichia coli* (KCCM 80210) (rhif adnabod 3c440i) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o L-tryptoffan a gynhyrchir drwy eplesu ag *Escherichia coli* (KCCM 80210) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

Yr ychwanegyn	L–tryptoffan
Rhif adnabod	3c440i
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion maethol
Grŵp gweithredol	Asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	L-tryptoffan gyda maen prawf puredd ar sail deunydd sych heb fod yn llai na 98% fel powdr gyda'r cydrannau a ganlyn: • Cynnwys lleithder: uchafswm o 1% • 1,1'-ethyliden-bis-L-tryptoffan: uchafswm o 10 mg/kg
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	L-tryptoffan a gynhyrchir drwy eplesu ag *Escherichia coli* (KCCM 80210) ($C_{11}H_{12}N_2O_2$) • Rhif CAS: 73-22-3[(1)] • Rhif EINECS: 200-795-6[(2)]
Dulliau dadansoddi[(3)]	I adnabod L-tryptoffan yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Food Chemical Codex "L-tryptophan monograph"[(4)] I ganfod tryptoffan yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel â chanfod fflworoleuedd (HPLC-FLD) (BS EN ISO 13904:2016[(5)]) I ganfod tryptoffan mewn deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel â chanfod fflworoleuedd (HPLC-FLD) (Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol - Atodiad 3, G)
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Pob rhywogaeth o anifail
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(6)]	Dim
Uchafswm cynnwys[(6)]	Dim
Darpariaethau eraill	1. Rhaid i L-tryptophan fod yn ddiogel i'r rwmen pan gaiff ei roi i anifeiliaid cnoi cil. 2. Rhaid nodi'r canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar label yr ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd: • yn Saesneg: "The supplementation with L-tryptophan shall take into account all essential and conditionally essential amino acids in order to avoid imbalances". • Yn Gymraeg: "Rhaid i'r atchwanegiad ag L-tryptophan ystyried yr holl asidau amino hanfodol ac amodol hanfodol er mwyn osgoi

	anghydbwysedd”. 3. Rhaid i gynnwys endotocsin yr ychwanegyn a’i botensial ysgeintio sicrhau amlygiad endotocsin mwyaf posibl o 1600 IU endotocsinau/m^3 aer(7).

(1) CAS Registry Number® a neilltuwyd i’r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(2) Stocrestr Ewropeaidd o Sylweddau Masnachol Presennol, fel y’i cyhoeddwyd yn OJ Rhif C146A, 15.6.90, t.1.

(3) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â’r cyfeirnod “Ares(2020)7146784 – 27/11/2020” a “JRC F.5/CvH/ZE/AS/Ares” ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 19 Rhagfyr 2020. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2020-0038_en.

(4) Food Chemicals Codex (FCC), 13eg argraffiad (Dull: monograff FCC L-tryptophan wedi ei gyhoeddi). Cyhoeddwyd gan Gonfensiwn Cyffuriadol yr Unol Daleithiau ar 1 Mawrth 2022 (ISSN 2153-1455). Ar gael yn: https://www.foodchemicalscodex.org.

(5) O dan y cyfeirnod BS EN ISO 13904:2016 “Animal feeding stuffs. Determination of tryptophan content”. Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Mawrth 2016 (ISBN 978 0 580 84452 2). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(6) Cynnwys L-tryptoffan (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

(7) Amlygiad a gyfrifir yn seiliedig ar lefel endotocsin a photensial ysgeintio’r ychwanegyn yn unol â’r dull a ddefnyddir gan Asiantaeth Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA Journal 2015;13(2):4015); dull dadansoddi: European Pharmacopoeia (Ph. Eur.): Supplement 6.6 (official January 1, 2010), Bacterial Endotoxins (cyfeirnod 01/2010:20614).

ATODLEN 10

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi paratoad o L-lysin sylffad a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80227) (rhif adnabod 3c324i) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o L-lysin sylffad a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80227) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

Yr ychwanegyn	L-lysin sylffad
Rhif adnabod	3c324i
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion maethol
Grŵp gweithredol	Asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Paratoad gronynnol o L-lysin sylffad sydd ag o leiaf 52% o L-lysin, uchafswm o 24% o sylffad ac sydd ag uchafswm cynnwys lleithder o 4%
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	L-lysin sylffad a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80227) ($C_{12}H_{28}N_4O_4 \cdot H_2SO_4$) • Rhif CAS: 60343-69-3[1]
Dulliau dadansoddi[2]	I feintioli lysin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid a rhag-gymysgeddau sy'n cynnwys mwy na 10% lysin: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS/FLD) (BS EN ISO 17180:2013[3]) I adnabod sylffad yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Monograff yr European Pharmacopoeia 20301[4] I feintioli lysin mewn rhag-gymysgeddau, deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod ffotometrig (IEC-VIS) (Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol - Atodiad 3, F) I feintioli lysin mewn dŵr: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS/FLD) (BS EN ISO 17180:2013[3])
Rhywogaeth neu categori o anifail	Pob rhywogaeth o anifail
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[5]	Dim
Uchafswm cynnwys[5]	10,000 mg/kg
Darpariaethau eraill	1. Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd. 2. Rhaid nodi'r cynnwys L-lysin ar label yr ychwanegyn. 3. Rhaid nodi'r canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar label yr ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd: • Yn Saesneg: "The supplementation with L-lysine should take into account all essential and conditionally essential amino acids in order to avoid imbalances".

	• Yn Gymraeg: “Dylai’r atchwanegiad ag L-lysin ystyried yr holl asidau amino hanfodol ac amodol hanfodol er mwyn osgoi anghydbwysedd”.

(1) CAS Registry Number® a neilltuwyd i’r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(2) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â’r cyfeirnod “Ares(2021)2533252 – 14/04/2021” a “JRC F.5/CvH/ZE/AS/Ares” ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 2 Gorffennaf 2021. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2020-00820085_en

(3) O dan y cyfeirnod BS EN ISO 17180:2013 “Animal feeding stuffs. Determination of lysine, Methionin and threonine in commercial amino acid products and premixtures”. Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Ebrill 2013 (ISBN 978 0 580 76077 8). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(4) Monograff yr European Pharmacopoeia – Ph. Eur. 6.0, 01/2008:20301: “Identification reactions of ions and functional groups – sulphates”. Cyhoeddwyd ar-lein gan y Gyfarwyddiaeth Ewropeaidd ar gyfer Ansawdd Meddyginiaethau a Gofal Iechyd. Ar gael yn: https://pheur.edqm.eu/home.

(5) Cynnwys L-lysin sylffad (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 11 Rheoliad 3(1)

Awdurdodi'r sylwedd hydrocsianisol bwtyleiddiedig (rhif adnabod 1b320) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod

Mae'r sylwedd hydrocsianisol bwtyleiddiedig (rhif adnabod 1b320) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion technegol" ac i'r grŵp gweithredol "gwrthocsidyddion", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(**1**).

Yr ychwanegyn	Hydrocsianisol bwtyleiddiedig
Rhif adnabod	1b320
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion technolegol
Grŵp gweithredol	Gwrthocsidyddion
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Hydrocsianisol bwtyleiddiedig gydag isafswm cynnwys o 98.5% mewn ffurf solet cwyrog
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Hydrocsianisol bwtyleiddiedig sy'n cynnwys cymysgedd o 2-tert-bwtyl-4-hydrocsianisol ac o leiaf 85% 3-tert-bwtyl-4-hydrocsianisol ($C_{11}H_{16}O_2$) • Rhif CAS: 25013-16-5[(1)]
Dulliau dadansoddi[(2)]	I feintioli hydrocsianisol bwtyleiddiedig mewn ychwanegion bwyd anifeiliaid: • Cromatograffaeth nwy a gyplysir â chanfod ïoneiddio â fflam (GC-FID) (Dull Food Chemical Codex 7fed argraffiad[(3)]) I feintioli hydrocsianisol bwtyleiddiedig mewn rhag-gymysgeddau a bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel gwedd wrthdroi a gyplysir â chanfod aráe-deuodau-uwchfioled (RP-HPLC-UV-DAD, 285 nm)
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Cathod
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(4)]	Dim
Uchafswm cynnwys[(4)]	150 mg/kg
Darpariaethau eraill	1. Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd. 2. Mae hydrocsianisol bwtyleiddiedig wedi ei awdurdodi i'w ddefnyddio ar y cyd â hydrocsitolwen bwtyleiddiedig hyd at uchafswm cynnwys cyfunol o 150 mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn.

[(1)] CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

[(2)] Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "JRC.D.5/FSQ/CvH/SB/ag/ARES(2012)40826" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2010-0132_en.

(**1**) Mae'r Atodlen hon yn cynnwys awdurdodiad newydd ar gyfer sylwedd sydd ar y farchnad ar hyn o bryd fel 'cynnyrch presennol' o dan Erthygl 10 o EUR 2003/1831. Cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, cyflwynwyd cais i'r Comisiwn Ewropeaidd, yn unol ag Erthygl 10(2) o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003, ar gyfer ail-werthuso hydrocsianisol bwtyleiddiedig (BHA) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail. Yn ddiweddarach, tynnodd yr ymgeisydd y cais yn ôl mewn perthynas â chathod. Ail-werthuswyd BHA ac fe'i hawdurdodwyd wedyn fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail ac eithrio cathod o dan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1399 (EUR 2020/1399). Fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod, mae awdurdodiad BHA fel 'cynnyrch presennol' o dan Erthygl 10 o EUR 2003/1831 wedi ei dynnu yn ôl gan reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn, ond gweler rheoliad 15 am ddarpariaeth drosiannol.

(3) Food Chemicals Codex (FCC), 7fed argraffiad (Dull: monograff BHA-FCC V1 wedi ei gyhoeddi). Cyhoeddwyd gan Gonfensiwn Cyffuriadol yr Unol Daleithiau ar 1 Mawrth 2010. Ar gael yn: https://www.foodchemicalscodex.org.

(4) Cynnwys hydrocsianisol bwtyleiddiedig (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 12

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi paratoad o sylfaen L-lysin (hylif) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80183) (rhif adnabod 3c320) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o sylfaen L-lysin (hylif) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80183) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

Yr ychwanegyn	Sylfaen L-lysin (hylif)
Rhif adnabod	3c320
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion maethol
Grŵp gweithredol	Asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Hydoddiant dyfrllyd sy'n cynnwys o leiaf 50% L-lysin
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Sylfaen L-lysin (hylif) ($NH_2(CH_2)$ CH (NH_2) COOH) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80183). • Rhif CAS: 56-87-1[(1)]
Dulliau dadansoddi[(2)]	I feintioli lysin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid a rhag-gymysgeddau sy'n cynnwys mwy na 10% lysin: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS/FLD) (BS EN ISO 17180:2013[(3)]) I feintioli lysin mewn rhag-gymysgeddau, deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS) (Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol - Atodiad 3, F) I feintioli lysin mewn dŵr: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS/FLD) (BS EN ISO 17180:2013[(3)]), neu • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS) (Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 - Atodiad 3, F)
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Pob rhywogaeth o anifail
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(4)]	Dim
Uchafswm cynnwys[(4)]	Dim
Darpariaethau eraill	1. Rhaid nodi'r cynnwys L-lysin ar label yr ychwanegyn. 2. Caniateir defnyddio'r ychwanegyn drwy ddŵr i'w yfed.

	3. Rhaid nodi'r canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar label yr ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd: • Yn Saesneg: "Dylai'r ychwanegiad gyda L-lysin, yn enwedig trwy ddŵr i'w yfed, ystyried yr holl asidau amino hanfodol a hanfodol amodol er mwyn osgoi anghydbwysedd". • Yn Gymraeg: "Dylai'r atchwanegiad ag L-lysin, yn arbennig drwy ddŵr i'w yfed, ystyried yr holl asidau amino hanfodol ac amodol hanfodol er mwyn osgoi anghydbwysedd".

(1) CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(2) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2019)7003671 – 12/11/2019" a "JRC F.5/CvH/SB/AS/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 27 Ionawr 2020. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2019-00160028_en.

(3) O dan y cyfeirnod BS EN ISO 17180:2013 "Animal feeding stuffs. Determination of lysine, Methionin and threonine in commercial amino acid products and premixtures". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Ebrill 2013 (ISBN 978 0 580 76077 8). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(4) Cynnwys L-lysin (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 13

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi'r sylwedd L-lysin monohydroclorid (pur yn dechnegol) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80183) (rhif adnabod 3c322ii) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifeiliaid

Mae'r sylwedd L-lysin monohydroclorid (pur yn dechnegol) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicuma* (KCCM 80183) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

Yr ychwanegyn	L-lysin monohydroclorid (pur yn dechnegol)
Rhif adnabod	3c322ii
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion maethol
Grŵp gweithredol	Asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Powdr L-lysin monohydroclorid sydd o leiaf 78% L-lysin ac sydd ag uchafswm cynnwys lleithder o 1.5%
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	L-lysin monohydroclorid (pur yn dechnegol) ($NH_2(CH_2)_4CH(NH_2)COOH$) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80183) • Rhif CAS: 657-27-2[(1)]
Dulliau dadansoddi[(2)]	I adnabod L-lysin monohydroclorid yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • "Monograff L-lysin monohydroclorid" y Food Chemicals Codex[(3)] I feintioli lysin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid a rhag-gymysgeddau sy'n cynnwys mwy na 10% lysin: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS/FLD) (BS EN ISO 17180:2013[(4)]) I feintioli lysin mewn rhag-gymysgeddau, deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS) (Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol - Atodiad 3, F) I feintioli lysin mewn dŵr: • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS/FLD) (BS EN ISO 17180:2013[(4)]), neu • Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod optegol (IEC-VIS) (Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 - Atodiad 3, F)
Rhywogaeth neu categori o anifail	Pob rhywogaeth o anifail
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys	Dim
Uchafswm cynnwys	Dim
Darpariaethau eraill	1. Rhaid nodi'r cynnwys L-lysin ar label yr ychwanegyn. 2. Gellir defnyddio'r ychwanegyn drwy ddŵr i'w yfed.

	3. Rhaid nodi'r canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar label yr ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd: • Yn Saesneg: "The supplementation with L-lysine, in particular via water for drinking, should take into account all essential and conditionally essential amino acids in order to avoid imbalances"; • Yn Gymraeg: "Dylai'r atchwanegiad ag L-lysin, yn arbennig drwy ddŵr i'w yfed, ystyried yr holl asidau amino hanfodol ac amodol hanfodol er mwyn osgoi anghydbwysedd".

(1) CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(2) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2019)7003671 – 12/11/2019" a "JRC F.5/CvH/SB /AS/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 27 Ionawr 2020. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2019-00160028_en.

(3) Food Chemicals Codex (FCC), 13eg argraffiad (Dull: monograff monohydroclorid L-lysin FCC wedi ei gyhoeddi). Cyhoeddwyd gan Gonfensiwn Cyffuriadol yr Unol Daleithiau ar 1 Mawrth 2022 (ISSN 2153-1455). Ar gael yn: https://www.foodchemicalscodex.org/.

(4) O dan y cyfeirnod BS EN ISO 17180:2013 "Animal feeding stuffs. Determination of lysine, methionine and threonine in commercial amino acid products and premixtures". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Ebrill 2013 (ISBN 978 0 580 76077 8). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(5) Cynnwys L-lysin monohydroclorid (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 14

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi'r sylwedd disodiwm 5'-gwanilad (GMP) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium stationis* (KCCM 10530) ac *Escherichia coli* K-12 (KFCC 11067) (rhif adnabod 2b627i) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r sylwedd disodiwm 5'-gwanilad (GMP) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium stationis* (KCCM 10530) ac *Escherichia coli* K-12 (KFCC 11067) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion synhwyraidd" ac i'r grŵp gweithredol "cyfansoddion cyflasu", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

Yr ychwanegyn	Disodiwm 5'-gwanilad
Rhif adnabod	2b627i
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion synhwyraidd
Grŵp gweithredol	Cyfansoddion cyflasu
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Powdr disodiwm 5'-gwanilad â meini prawf purdeb lleiaf o 97%.
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Ffurf wedi ei hydradu ar ddisodiwm 5'-gwanilad (GMP) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium stationis* (KCCM 10530) ac *Escherichia coli* K-12 (KFCC 11067) ($C_{10}H_{12}N_5Na_2O_8P$) • Rhif CAS: 5550-12-9[(1)] • Rhif EINECS: 226-914-1[(2)]
Dulliau dadansoddi[(3)]	I adnabod disodiwm 5'-gwanilad (GMP) yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Monograff "disodiwm 5'-gwanilad" FAO JECFA[(4)] I ganfod disodiwm 5'-gwanilad (GMP) yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, rhag-gymysgeddau cyflasu a dŵr: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel a gyplysir â chanfod UV (HPLC-UV)
Rhywogaeth neu categori o anifail	Pob rhywogaeth o anifail
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(5)]	Dim
Uchafswm cynnwys[(5)]	Dim
Darpariaethau eraill	1. Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd. 2. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn yn y bwyd anifeiliaid ar ffurf rhag-gymysgedd.

	3. Rhaid nodi'r canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar label yr ychwanegyn: • Yn Saesneg: "Recommended maximum content of the active substance when used alone or in combination with other ribonucleotides up to the same level per kg of complete feedingstuff with a moisture content of 12%: 50 mg". • Yn Gymraeg: "Yr uchafswm cynnwys a argymhellir o'r sylwedd actif pan y'i defnyddir ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â riboniwcleotidau eraill hyd at yr un lefel fesul kg o fwyd anifeiliaid â chynnwys lleithder o 12%: 50 mg". 4. Rhaid i grŵp gweithredol, rhif adnabod, enw a swm ychwanegol y sylwedd actif gael eu nodi ar label y rhag-gymysgedd pan fyddai'r lefel defnydd ar label y rhag-gymysgedd yn golygu bod lefel y sylwedd actif (ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â riboniwcleotidau eraill) mewn bwyd anifeiliaid cyflawn yn fwy na 50 mg/kg.

(1) CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(2) Stocrestr Ewropeaidd o Sylweddau Masnachol Presennol, fel y'i cyhoeddwyd yn OJ Rhif C146A, 15.6.90, t.1.

(3) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2020)4619276 – 04/09/2020" a "JRC F.5/CvH/ZE /AS/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 16 Hydref 2020. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2019-0085_en.

(4) Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig (FAO) Cydbwyllgor Arbenigol FAO/WHO ar Ychwanegion Bwyd (JECFA) - *Combined Compendium of Food Additive Specifications, "Disodium 5'-guanylate" Monograph 1* (2006). Cyhoeddwyd gan yr FAO ac a ddiweddarwyd ddiwethaf (fersiwn gwe) Awst 2011 (ISBN 92-5-105569-6). Ar gael yn: https://www.fao.org/food/food-safety-quality/scientific-advice/jecfa/jecfa-additives/detail/en/c/255

(5) Cynnwys disodiwm 5'-gwanilad (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 15

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi paratoad o fwramidas (EC 3.2.1.17) a gynhyrchir drwy eplesu â *Trichoderma reesei* (DSM 32338) (rhif adnabod 4d16) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer perchyll wedi eu diddyfnu

Mae'r paratoad o fwramidas (EC 3.2.1.17) a gynhyrchir drwy eplesu â *Trichoderma reesei* (DSM 32338) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "ychwanegion sootechnegol eraill", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

Yr ychwanegyn	Mwramidas (EC 3.2.1.17)
Rhif adnabod	4d16
Deiliad yr awdurdodiad	DSM Nutritional Products Ltd
Categori ychwanegion	Ychwanegion sootechnegol
Grŵp gweithredol	Ychwanegion sootechnegol eraill
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Paratoadau solet a hylif o fwramidas (EC 3.2.1.17) a gynhyrchir drwy eplesu â *Trichoderma reesei* (DSM 32338) sydd ag isafswm actifedd ensym o 60,000 LSU(F)/g[(1)]
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Mwramidas (EC 3.2.1.17) a gynhyrchir drwy eplesu â *Trichoderma reesei* (DSM 32338) • Rhif CAS: 9001-63-2[(2)] • Rhif EINECS: 232-620-4[(3)] • Rhif EC (IUBMB): 3.2.1.17[(4)]
Dulliau dadansoddi[(5)]	I feintioli mwramidas yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Dull biobrawf ensym sy'n seiliedig ar fflworoleuedd sy'n pennu dadbolymeriad ensym wedi ei gataleiddio paratoad peptidoglycan â label fflworesin ar pH 6.0 a 30 °C.
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Perchyll wedi eu diddyfnu
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(6)]	50,000 LSU(F)/kg
Uchafswm cynnwys[(6)]	65,000 LSU(F)/kg
Darpariaethau eraill	Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd.

[(1)] Diffinnir 1 LSU(F) fel swm yr ensym sy'n cynyddu fflworoleuedd peptidoglycan â label fflworescin 12.5 µg/ml y funud ar pH 6.0 a 30 ºC gan werth sy'n cyfateb i fflworoleuedd oddeutu 0.06 nmol isomer isothiocyanad fflworescin.

[(2)] CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

[(3)] Stocrestr Ewropeaidd o Sylweddau Masnachol Presennol, fel y'i cyhoeddwyd yn OJ Rhif C146A, 15.6.90, t.1.

[(4)] Rhif adnabod a ddyrannwyd gan yr Undeb Biocemeg a Bioleg Foleciwlaidd Rhyngwladol (IUBMB) https://iubmb.org.

[(5)] Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2018)811287 – 12/02/2018" a "JRC F.5/CvH/SB/AS/Ares" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2018. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2017-0046_en.

[(6)] Cynnwys mwramidas (LSU(F)/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%)

Awdurdodi paratoad ffytomenadion (fitamin K_1) (rhif adnabod 3a712) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ceffylau

Mae'r paratoad o ffytomenadion (fitamin K_1) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "fitaminau, pro-fitaminau a sylweddau wedi eu diffinio'n dda yn gemegol sydd ag effaith debyg", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

Yr ychwanegyn	Ffytomenadion neu fitamin K_1
Rhif adnabod	3a712
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion maethol
Grŵp gweithredol	Fitaminau, pro-fitaminau a sylweddau wedi eu diffinio'n dda yn gemegol sydd ag effaith debyg
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Cynhyrchir gan synthesis cemegol • Paratoad solet sy'n cynnwys o leiaf 4.2% o ffytomenadion (fitamin K_1)
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	2-methyl-3-[(E-7R, 11R) -3,7,11,15-tetramethylhecsadec-2- enyl] naphthalen-1,4-dion (ffytomenadion) ($C_{31}H_{46}O_2$) • Rhif CAS: 84-80-0[(1)] • Rhif EINECS: 201-564-2[(2)] â'r elfennau a ganlyn: • E-ffytomenadion: isafswm o 75% • E-epocsiffytomenadion: Uchafswm o 4% • Cyfanswm purdeb isomerau E-ffytomenadion, E-epocsiffytomenadion a Z-ffytomenadion: 97% o leiaf
Dulliau dadansoddi[(3)]	I ganfod ffytomenadion (fitamin K_1) yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel (HPLC) (Monograff yr European Pharmacopoeia 1036[(4)]) I ganfod ffytomenadion yn y paratoad ychwanegion ac mewn bwyd anifeiliaid cyflenwol: • Cromatograffaeth hylif perfformiad uchel â chanfod fflworoleuedd (HPLC-FLD) (BS EN 14148:2003[(5)])
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Ceffylau
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[(6)]	Dim
Uchafswm cynnwys[(6)]	Dim
Darpariaethau eraill	Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd.

(1) CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(2) Stocrestr Ewropeaidd o Sylweddau Masnachol Presennol, fel y'i cyhoeddwyd yn OJ Rhif C146A, 15.6.90, t.1.

(3) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2021)145311 – 07/01/2021" a "JRC F.5/CvH/SB /AS/Ares", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 17 Chwefror 2021. Ar gael yn https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2020-0006_en.

(4) Monograff yr European Pharmacopoeia - Ph. Eur. 8.0 01 2014 Cyhoeddwyd ar-lein gan y Gyfarwyddiaeth Ewropeaidd ar gyfer Ansawdd Meddyginiaethau a Gofal Iechyd ar 1 Ionawr 2024. Ar gael yn: https://pheur.edqm.eu/home.

(5) O dan y cyfeirnod BS EN 14148:2003 "Foodstuffs. Determination of vitamin K1 by HPLC". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 25 Gorffennaf 2003 (ISBN 0 580 42317 4). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(6) Cynnwys ffytomenadion (fitamin K_1) (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 17

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad (ag addasiad) baratoad o gelad copr o analog hydrocsi o fethionin (rhif adnabod 3b410i (3b4.10 gynt)) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o gelad copr o analog hydrocsi o fethionin a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "cyfansoddion elfennau hybrin", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(**1**).

Yr ychwanegyn	Celad copr o analog hydrocsi o fethionin
Rhif adnabod	3b410i
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion maethol
Grŵp gweithredol	Cyfansoddion elfennau hybrin
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Celad copr o analog hydrocsi o fethionin ar ffurf solet sy'n cynnwys 16% o gopr o leiaf a'r cydrannau a ganlyn: • asid bwtanöig (2-hydrocsi-4-methylthio): 78% o leiaf • Nicel: Uchafswm o 20 ppm
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Celad copr o analog hydrocsi o fethionin ($Cu(CH_3S(CH_2)_2\text{-}CH(OH)\text{-}COO)_2$) • Rhif CAS: 292140-30-8[(1)]
Dulliau dadansoddi[(2)]	I feintioli cynnwys analog hydrocsi o fethionin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Titradaeth, titradiad potensiomedrig ar ôl adwaith lleihau ocsideiddio I feintioli cyfanswm y copr yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Sbectrometreg allyriant atomig â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017[(3)] neu BS EN 15621:2017[(4)]); neu • Sbectrometreg amsugniad atomig (AAS) (BS EN ISO 6869:2001)[(5)] I feintioli cyfanswm y copr mewn rhag-gymysgeddau: • Sbectrometreg allyriant atomig â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017[(3)] neu BS EN 15621:2017[(4)]); neu • Sbectrometreg amsugniad atomig (AAS) (BS EN ISO 6869:2001[(5)]); neu • Sbectrometreg màs â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-MS) (BS EN 17053:2018[(6)])

(**1**) Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys adnewyddu'r awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 349/2010 (EUR 2010/349). Mae EUR 2010/349 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

	I feintioli cyfanswm y copr mewn deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Sbectrometreg allyriant atomig â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017[3] neu BS EN 15621:2017[4]); neu • Sbectrometreg amsugniad atomig (AAS) (Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol - Atodiad 4, C neu BS EN ISO 6869:2001[5]); neu • Sbectrometreg màs â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-MS) (BS EN 17053:2018[6])
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Pob rhywogaeth o anifail
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[7]	Dim
Uchafswm cynnwys[7]	Ar gyfer bucholion: • Cyn dechrau cnoi cil: 15mg/kg (cyfanswm) • Arall: 30mg/kg (cyfanswm) Ar gyfer defaid: • 15 mg/kg (cyfanswm) Ar gyfer geifr: • 35 mg/kg (cyfanswm) Ar gyfer perchyll: • Yn sugno ac wedi eu diddyfnu hyd at 4 wythnos ar ôl eu diddyfnu: 150 mg/kg (cyfanswm) • O'r 5ed wythnos hyd at 8 wythnos ar ôl diddyfnu: 100 mg/kg (cyfanswm) Ar gyfer cramenogion: • 50 mg/kg (cyfanswm) Ar gyfer pob rhywogaeth arall o anifail: • 25 mg/kg (cyfanswm)
Darpariaethau eraill	1. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn yn y bwyd anifeiliaid ar ffurf rhag-gymysgedd. 2. Ar gyfer bwyd anifeiliaid ar gyfer defaid, pan fo lefel y copr yn y bwyd anifeiliaid yn uwch na 10 mg/kg, rhaid nodi'r canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar label y bwyd anifeiliaid: • Yn Saesneg: "The level of copper in this feed may cause poisoning in certain breeds of sheep". • Yn Gymraeg: "Gall lefel y copr yn y bwyd anifeiliaid hwn achosi gwenwyno mewn rhai bridiau o ddefaid"; 3. Ar gyfer bwyd anifeiliaid ar gyfer bucholion ar ôl dechrau cnoi cil, pan fo lefel y copr yn y bwyd anifeiliaid yn llai nag 20 mg/kg, rhaid nodi'r canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar label y bwyd anifeiliaid: • Yn Saesneg: "The level of copper in this feed may cause copper deficiencies in cattle grazing pastures with high contents of molybdenum or sulphur". • Yn Gymraeg: "Gall lefel y copr yn y bwyd anifeiliaid hwn achosi diffygion copr mewn gwartheg syn pori tir sydd â chynnwys uchel o folybdenwm neu sylffwr".

(1) CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(2) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "D08-FSQ(2007)D/29104" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2007-0012_en.

(3) O dan y cyfeirnod BS EN 15510:2017 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, iron, zinc, copper, manganese, cobalt, molybdenum and lead by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94541 0). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(4) O dan y cyfeirnod BS EN 15621:2017 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, sulphur, iron, zinc, copper, manganese and cobalt after pressure digestion by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94543 4). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(5) O dan y cyfeirnod BS EN ISO 6869:2001 "Animal feeding stuffs: Determination of the contents of calcium, copper, iron, magnesium, manganese, potassium, sodium and zinc. Method using atomic absorption spectrometry". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 15 Mawrth 2001 (ISBN 0 580 36933 1). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(6) O dan y cyfeirnod BS EN 17053:2018 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of trace elements, heavy metals and other elements in feed by ICP-MS (multi-method)". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 28 Chwefror 2018 (ISBN 978 0 580 94471 0). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(7) Cynnwys copr (Cu) (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 18

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad (ag addasiad) baratoad o gelad manganîs o analog hydrocsi o fethionin (rhif adnabod 3b510 (3b5.10 gynt)) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o gelad manganîs o analog hydrocsi o fethionin a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "cyfansoddion elfennau hybrin", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(**1**).

Yr ychwanegyn	Celad manganîs o analog hydrocsi o fethionin
Rhif adnabod	3b510
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion maethol
Grŵp gweithredol	Cyfansoddion elfennau hybrin
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Celad manganîs o analog hydrocsi o fethionin ar ffurf solet sy'n cynnwys 14% o fanganîs o leiaf a'r cydrannau a ganlyn: • asid bwtanöig (2-hydrocsi-4-methylthio): 76% o leiaf • Nicel: Uchafswm o 170 ppm
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Celad manganîs o analog hydrocsi o fethionin ($Mn(CH_3S(CH_2)_2\text{-}CH(OH)\text{-}COO)_2$) • Rhif CAS: 292140-29-5[1]
Dulliau dadansoddi[2]	I feintioli cynnwys analog hydrocsi o fethionin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Titradaeth, titradiad potensiomedrig ar ôl adwaith lleihau ocsideiddio I feintioli cyfanswm y manganîs yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau • Sbectrometreg amsugniad atomig (AAS) (BS EN ISO 6869:2001[3]); neu • Sbectrometreg allyriant atomig â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017[4]), neu • Sbectrometreg allyriant atomig â phlasma a gyplyswyd yn anwythol ar ôl treulio drwy bwysedd (ICP-AES) (BS EN 15621:2017[5])

(**1**) Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys adnewyddu'r awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 350/2010 (EUR 2010/350). Mae EUR 2010/350 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

	I feintioli cyfanswm y manganîs mewn deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Sbectrometreg amsugniad atomig (AAS) (Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol - Atodiad 4, C neu BS EN ISO 6869:2001(3)), neu • Sbectrometreg allyriant atomig â phlasma a gyplyswyd yn anwythol, ICP-AES (BS EN 15510:2017(4)), neu • Sbectrometreg allyriant atomig â phlasma a gyplyswyd yn anwythol ar ôl treulio drwy bwysedd (ICP-AES) (BS EN 15621:2017(5))
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Pob rhywogaeth o anifail
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys(6)	Dim
Uchafswm cynnwys(6)	Ar gyfer pysgod: • 100 mg/kg (cyfanswm)
	Ar gyfer pob rhywogaeth arall o anifail: • 150 mg/kg (cyfanswm)
Darpariaethau eraill	1. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn yn y bwyd anifeiliaid ar ffurf rhag-gymysgedd. 2. Caniateir rhoi celad manganîs o analog hydrocsi o fethionin ar y farchnad a'i ddefnyddio fel ychwanegyn sy'n baratoad.

(1) CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol https://www.cas.org/cas-data/cas-registry.

(2) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "D08-FSQ(2007)D/29224" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2007-0011_en.

(3) O dan y cyfeirnod BS EN ISO 6869:2001 "Animal feeding stuffs. Determination of the contents of calcium, copper, iron, magnesium, manganese, potassium, sodium and zinc. Method using atomic absorption spectrometry". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 15 Mawrth 2001 (ISBN 0 580 36933 1). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(4) O dan y cyfeirnod BS EN 15510:2017 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, iron, zinc, copper, manganese, cobalt, molybdenum and lead by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94541 0). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(5) O dan y cyfeirnod BS EN 15621:2017 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, sulphur, iron, zinc, copper, manganese and cobalt after pressure digestion by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94543 4). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(6) Cynnwys manganîs (Mn) (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

ATODLEN 19

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad (ag addasiad) baratoad o gelad zinc o analog hydrocsi o fethionin (rhif adnabod 3b610 (3b6.10 gynt)) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad o gelad zinc o analog hydrocsi o fethionin a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "cyfansoddion elfennau hybrin", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(**1**).

Yr ychwanegyn	Celad zinc o analog hydrocsi o fethionin
Rhif adnabod	3b610
Deiliad yr awdurdodiad	Dim
Categori ychwanegion	Ychwanegion maethol
Grŵp gweithredol	Cyfansoddion elfennau hybrin
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Celad zinc o analog hydrocsi o fethionin ar ffurf solet sy'n cynnwys 17% o zinc o leiaf a'r cydrannau a ganlyn: • asid bwtanöig (2-hydrocsi-4-methylthio): 79% o leiaf • Nicel: Uchafswm o 1.7 ppm
Nodweddiad y sylwedd(au) actif	Celad zinc o analog hydrocsi o fethionin ($Zn(CH_3S(CH_2)_2\text{-}CH(OH)\text{-}COO)_2$) • Rhif CAS: 292140-29-5[1]
Dulliau dadansoddi[2]	I feintioli cynnwys analog hydrocsi o fethionin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Titradaeth, titradiad potensiomedrig ar ôl adwaith lleihau ocsideiddio I feintioli cyfanswm y zinc yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: • Sbectrometreg allyriant atomig â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017[3] neu BS EN 15621:2017[4]), neu • Sbectrometreg amsugniad atomig (AAS) (BS EN ISO 6869:2001[5]) I feintioli cyfanswm y zinc mewn rhag-gymysgeddau: • Sbectrometreg allyriant atomig â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017[3] neu BS EN 15621:2017[4]), neu • Sbectrometreg amsugniad atomig (AAS) (BS EN ISO 6869:2001[5]), neu • Sbectrometreg màs â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-MS) (BS EN 17053:2018[6])

(**1**) Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys adnewyddu'r awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 335/2010 (EUR 2010/335). Mae EUR 2010/335 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

	I feintioli cyfanswm y zinc mewn deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid cyfansawdd: • Sbectrometreg allyriant atomig â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017[3] neu BS EN 15621:2017[4]), neu • Sbectrometreg amsugniad atomig (AAS) (Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol - Atodiad 4, C neu BS EN ISO 6869:2001[5]), neu • Sbectrometreg màs â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-MS) (BS EN 17053:2018[6])
Rhywogaeth neu gategori o anifail	Pob rhywogaeth o anifail
Oedran hynaf	Dim
Isafswm cynnwys[7]	Dim
